| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **16 Mehefin 2011** |
| **TEITL :** | **Indemniad mewn perthynas â chynrychiolaeth gyfreithiol yng ngwrandawiad y Pwyllgor Safonau** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Priodoldeb** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar natur a lefel y gynrychiolaeth broffesiynol fyddai'n briodol i'w had-dalu o dan delerau Indemniad y Cyngor i Aelodau a Swyddogion** |

**Cefndir**

1. Cyfeiriwyd adroddiad yr Ombwdsmon ar y gŵyn yn erbyn y Cynghorydd A at y Pwyllgor Safonau. Penderfynodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf y dylai'r aelod gael y cyfle i gyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig neu ar lafar. Mae'r cynghhorydd wedi cadarnhau ei fod am fynychu'r gwrandawiad ac yn bwriadu cael ei gynrychioli gan gyfreithiwr/wraig.

2. Mae'r Cyngor yn darparu indemniad i aelodau etholedig mewn perthynas (ymysg materion eraill) a honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad. Mae'r indemniad yn cynnwys ad-dalu costau ond mae'n amodol ar ganlyniad yr achos. Mae telerau'r indemniad yn darparu fel a ganlyn:

*"B.* ***<u>Ad-dalu costau</u>***

*Lle rhoddir indemniad i aelod neu swyddog mewn perthynas ag amddiffyn achos troseddol neu achos yn honni torri cod ymddygiad, yna:*

*…(ii) lle bo'r camau yn ymwneud â honiad yn erbyn aelod o dorri'r cod ymddygiad:*

*(a) os canfyddir bod aelod wedi methu â chydymffurfio â'r cod ymddygiad (neu fod aelod yn cyfaddef y methiant) ac o ganlyniad bod yr aelod wedyn yn cael ei (g)wahardd (g)wahardd yn rhannol neu ei (d)diarddel, yna rhaid talu'r symiau a wariwyd gan yr awdurdod neu ei yswirwyr yn ôl i'r awdurdod neu i'r yswirwyr.*

*(b) yn achos honiad o dorri'r cod ymddygiad ac os canfyddir bod aelod wedi methu â chydymffurfio â'r cod ymddygiad (neu fod aelod yn cyfaddef y methiant) ac o ganlyniad bod yr aelod wedyn yn cael cerydd neu fath arall o gosb yn hytrach na chael ei (g)wahardd, (g)wahardd yn rhannol neu ei (d)diarddel, yna os yw Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn credu ei bod yn briodol, rhaid talu'r symiau a wariwyd gan yr awdurdod neu ei yswirwyr yn ôl i'r awdurdod neu i'r yswirwyr."*

3. Yn ogystal â hyn mae’n rhaid i’r aelod gael cytundeb yr awdurdod ymlaen llaw, drwy'r Pwyllgor Safonau, ynglŷn â natur a graddfa cynrychiolaeth broffesiynol. Mae’r telerau’r indemniad yn darparu :

*“C.* ***Lefel cynrychiolaeth***

*Yn achos cynrychiolaeth broffesiynol o aelod neu swyddog dan delerau’r indemniad hwn, rhaid i’r aelod neu swyddog gael caniatâd yr awdurdod ymlaen llaw drwy ei Bwyllgor Safonau ynglŷn â natur a graddfa’r gynrychiolaeth honno, o gofio na fydd y penderfyniad ar lefel neu raddfa’r gynrychiolaeth fyth yn cyfyngu’n afresymol ar hawl yr aelod neu swyddog unigol i amddiffyn yr achosion hynny’n iawn.”*

**Argymhelliad**

4. Gofynnir i’r Pwyllgor felly benderfynu ar natur a graddfa’r gynrychiolaeth gyfreithiol sy’n briodol i’r Cyngor indemniad ar ei gyfer o dan delerau ei Indemniad ar gyfer Aelodau a Swyddogion.